Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(4)-20-15 P5

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Ddrafft 2016-17

Medi 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynnwys

01. Cyflwyniad ..... 2
02. Cyllideb 2016-17 ..... 4
03. Cefnogi'r rhaglen gynyddol o waith deddfwriaethol ..... 7
04. Gwasanaethau dwyieithog ..... 10
05. Datblygiad Proffesiynol i'r Aelodau ..... 11
06. Cefnogi Newid Cyfansoddiadol ..... 13
07. Parhau â'r gwaith ymgysylltu, a'i gynyddu ..... 14
08. Datblygu gwasanaethau technolegol – datblygu ein gwaith fel senedd ddigidol, agored a hygyrch ..... 17
09. Pobl a Lleoedd - Ystadau a Buddsoddi yn ein staff ..... 20
10. Gwerth am arian ..... 24
11. Cyllideb i ariannu Penderfyniad annibynnol y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ..... 26
12. Cwmpas y gyllideb ..... 27
Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb ..... 29
Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol ..... 30
Atodiad 3: Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol – Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol ..... 32
Atodiad 4: Geirfa ..... 34

# 01.Cyflwyniad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, mae’r Comisiwn wedi cynllunio’r gyllideb mewn modd strategol, gyda strategaeth y gyllideb ar gyfer cyfnod llawn y Cynulliad a chyllidebau ar gyfer sawl blwyddyn. Mae’r dull hwn wedi sicrhau eglurder, tryloywder a chysondeb gwell ac mae’r Cynulliad wedi’i gymeradwyo o un flwyddyn i’r llall. I danategu strategaeth y gyllideb, mae gennym gynlluniau manwl sy’n caniatáu inni ystyried gofynion gwario yn yr hirdymor, fel cynllunio ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwaith adnewyddu’r ystâd. Mae gan y Comisiwn gyllideb flynyddol ac nid oes ffordd iddo drosglwyddo cronfeydd o un flwyddyn i’r llall. Fodd bynnag, mae cael cynlluniau clir am y gwaith rydym yn gwybod fydd yn ofynnol, yn caniatáu inni flaenoriaethu a gwneud defnydd ystyriol a chall o’n cyllidebau blynyddol. Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yw’r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer adnoddau’r Cynulliad, gan herio ac adolygu pob penderfyniad sy’n ymwneud ag adnoddau, o recriwtio staff i gronfeydd prosiectau neu wariant gweithredol ychwanegol. Drwy gydol y flwyddyn ariannol, mae’r Bwrdd yn cydbwyso argaeledd cronfeydd ag anghenion prosiectau a gwasanaethau dros sawl blwyddyn er mwyn sicrhau bod ei fuddsoddiad yn y Cynulliad yn cael ei flaenoriaethu a’i reoli’n briodol ac y creffir arno’n gywir.

Cred Comisiwn y Cynulliad fod sicrhau gwerth am arian yn hanfodol; daeth adroddiad archwilio mewnol o fis Mawrth 2015 i’r casgliad fod gan Gomisiwn y Cynulliad ddiwylliant gwerth am arian datblygedig ar waith a bod y diwylliant hwn wedi’i ymgorffori ym mhob rhan o’r sefydliad. Drwy gydol y Cynulliad hwn, un o nodau strategol y Comisiwn oedd “defnyddio adnoddau’n ddoeth”. Er mwyn cryfhau ein dull ymhellach, rydym yn newid ffocws ein targed gwerth am arian o reoli swyddi gwag i enillion o brosiectau mewn perthynas â gwireddu buddiannau, gwasanaethau’r Cynulliad a chaffael sy’n arwain at drafodaethau contract llwyddiannus sy’n arwain at arbedion diriaethol. Y tu hwnt i hyn, mae’r mesurau a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiadau Perfformiad Corfforaethol rheolaidd yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr lle gellir ein barnu. Mae hyn, yn ei dro, yn rhan o’n Fframwaith Sicrwydd, a brofir yn annibynnol mewn sawl ffordd. Gyda’i gilydd, mae’r elfennau hyn, drwy sicrhau bod ein gwaith o gynllunio’r gyllideb yn arbenigol, yn drylwyr ac yn destun gwaith craffu priodol, yn sicrhau bod y Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau’n effeithlon, yn economaidd ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff a gormodedd.

Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad ac yn adeiladu ar gynnydd a chyflawniadau'r Comisiwn dros y pum mlynedd diwethaf. Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, canolbwyntiodd y Comisiwn ei fuddsoddiad a'i ymdrechion ar ei nodau strategol, gan ganolbwyntio felly ar sicrhau bod democratiaeth yng Nghymru yn cyflawni'n effeithiol. Bydd parhau â'r dull hwnnw yn hanfodol os yw'r Cynulliad i ymateb i her y cyfrifoldebau cynyddol sydd arno gyda'r capasiti cyfyng sydd yn nodwedd o ddeddfwrfa leiaf y DU.

Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn fach yn ôl unrhyw gymhariaeth genedlaethol neu ryngwladol wrthrychol. Does dim digon o Aelodau Cynulliad, yn enwedig o ran eu gwaith pwyllgor, a bydd y pwysau hyn yn dwysáu wrth i'n cyfrifoldebau deddfwriaethol a chyllidol gynyddu. Bydd Aelodau'r Cynulliad nesaf yn gyfrifol am ddeddfu yng Nghymru mewn meysydd polisi datganoledig. Bydd ehangder y cyfrifoldeb polisi datganoledig hwnnw yn cynyddu a bydd ganddynt gyfrifoldeb dros agweddau ar y gyfundrefn dreth a benthyciadau'r llywodraeth. Bydd yr Aelodau hynny nad ydynt mewn Llywodraeth yn gyfrifol am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar gyfer ei holl wariant, ei pholisi a'i chamau gweithredu deddfwriaethol ac am fynegi gweledigaethau eraill ar gyfer y dyfodol.

Eto i gyd, er bod y farn bod y Cynulliad yn rhy fach yn cael ei derbyn yn fwyfwy cyffredinol erbyn hyn, mae annhebygol y bydd cynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad cyn 2021.

Prif nod y gyllideb hon ar gyfer 2016-17 yw darparu sefydlogrwydd a sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'r Aelodau hyd nes caiff y Comisiwn newydd ei sefydlu a hyd nes bod ei nodau a'i flaenoriaethau yn glir. Bydd yn galluogi'r Comisiwn newydd i gyflawni ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd i'r un safonau uchel ag a gafwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gyda phwyslais ar wella'n barhaus, arloesi a gwerth am arian.

Y tu hwnt i hynny, fodd bynnag, yr her fwyaf i'r Comisiwn newydd fydd sicrhau bod Cynulliad sydd â mwy o gyfrifoldeb nag erioed o'r blaen yn cael yr offer a'r gwasanaethau mwyaf priodol o ystyried ei faint a'r cyfyngiadau ar ei gapasiti a ddaw yn sgil hynny. Wrth gwrs, mater i'r Comisiwn nesaf fydd penderfynu sut mae gwneud hynny. Rydym yn hyderus bod y gwasanaethau a'r diwylliant o reolaeth ariannol gadarn y mae'r Comisiwn hwn yn ei adael yn waddol, yn ei roi mewn sefyllfa gref i wneud hynny ac y bydd y gyllideb hon yn sicrhau dechrau da ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynulliad nesaf.

# Lincs defnyddiol

- **Pwyllgorau Seneddol o Safon Fyd-eang**
  **http://senedd.assemblywales.org/documents/s29820/Review%20of%20support%20for%20committees%20-%20December%202013.pdf**
- **Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Comisiwn**
  **http://www.senedd.assembly.wales/mgissueHistoryHome.aspx?lid=6022**
- **Adroddiad Cydraddoldeb y Comisiwn 2014-15**
  **http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/Annual-Equality-Report-2014-2015_Word.docx**
- **Adroddiadau Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon**
  **http://www.senedd.assembly.wales/mgissueHistoryHome.aspx?lid=2850**
- **Y Bwrdd Taliadau – Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad**
  **http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9636**

# 02.Cyllideb 2016-17

Rhaid i gyllideb 2016-17, sef blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad, sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal i'r safon uchaf yn ystod y cyfnod pontio rhwng y Pedwerydd a'r Pumed Cynulliad, ac yn ein rhoi mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth i'r Comisiynwyr newydd.

Mae cyllideb y Comisiwn, y mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn gyfrifol amdani, yn cael ei rhannu'n wahanol adrannau, sy'n darparu cyllid ar gyfer:

- gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn;
- y gyllideb ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Tâl a Lwfansau'r Aelodau;
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys Ei Mawrhydi (AME); a
- chyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad.

Mae cyllideb arfaethedig y Comisiwn ar gyfer 2016-17 i'w gweld yn Nhabl 1, ynghyd â chyllideb 2015-16 at ddibenion cymharu.

| Tabl 1 | Cyllideb 2015-16 | Cyllideb Arfaethedig 2016-17 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Staff y Comisiwn** | 18.7 | 20.3 |
| **Costau Sefydlog (gan gynnwys dibrisio)** | 11.6 | 9.9 |
| **Costau Newidiol** | 5.4 | 5.4 |
| **Cronfeydd datblygu** | 0.7 | 0.9 |
| **Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau'r Comisiwn** | **36.4** | **36.5** |
| | | |
| **Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad** | 14.5 | 15.5 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Weithredol** | **50.9** | **52.0** |
| | | |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 1.2 | 1.5 |
| | | |
| **Gwariant yn ymwneud ag etholiadau** | 0.5 | 2.5 |

Mae cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn wedi'i pharatoi ar sail 1.5% o doriad mewn termau real. Ers 2014-15, rydym wedi olrhain y newidiadau mewn cyllid i Floc Cymru wrth ystyried ein cyllideb ein hunain. Ni ddisgwylir i ganlyniadau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant a fydd yn cwmpasu 2016-17 gael eu cyhoeddi tan fis Tachwedd 2015. Felly, rydym wedi defnyddio data a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU (2014) fel canllaw (toriad o 1.1% i gyllid mewn termau real) ac wedi tybio y bydd y setliad terfynol yn fwy llym. Er gwaethaf y gostyngiad hwn o 1.5% mewn termau real, bydd y Comisiwn yn gallu parhau i ddarparu cefnogaeth gref, integredig i ddiwallu anghenion Aelodau unigol y Cynulliad a'r pwyllgorau.

Ar gyfer rhai meysydd gwariant y Comisiwn, fel costau staff, cynigir cynnydd yn y cyllid i ddarparu capasiti a sgiliau ychwanegol i gefnogi busnes y Cynulliad. Mae'r gyllideb staff ar gyfer 2016-17 hefyd yn adlewyrchu'r costau ychwanegol yn sgil rhoi'r gorau i gontractio allan ar gyfer Yswiriant Gwladol.

Bydd y gyllideb hon yn darparu cyllid blwyddyn gyfan ar gyfer 441 o swyddi staff, 13 yn fwy nag yn 2015-16. Ceir swyddi newydd mewn sawl maes allweddol:

- yng Nghyfarwyddiaeth Busnes a Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad lle bydd saith swydd ychwanegol yn cynyddu capasiti ac arbenigedd mewn gwaith craffu ariannol yn sgil pwerau deddfu a phwerau ariannol cynyddol y Cynulliad, yn ymestyn gwasanaethau dwyieithog yn y Swyddfa Gyflwyno, ac yn darparu ar gyfer cyflwyno swyddi dan hyfforddiant o fewn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol;
- yn y tîm Cymorth Busnes i Aelodau a'r tîm Cydraddoldeb lle bydd tair swydd newydd yn sicrhau bod Aelodau newydd ac Aelodau sy'n gadael yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt;
- yn y tîm Dysgu a Datblygu lle bydd swydd ychwanegol yn gwella ein hymrwymiad parhaus i hyfforddi a datblygu staff; a
- mae newidiadau eraill i staff yn cynnwys ailstrwythuro'r tîm Pensiynau er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth a rheoli gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol cynyddol.

Mae'r lefel hon o gyllid hefyd yn darparu ar gyfer: ymestyn y cynllun prentisiaeth ar draws y Cynulliad a pharhad cynlluniau i raddedigion a hyfforddiant mewn cyfieithu, ymchwil ac adnoddau dynol.

Mae'r datblygiadau staffio hyn wedi'u cynllunio'n ofalus. Mae staff y Comisiwn yn gweithio i gylch busnes blynyddol er mwyn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion byrdymor a thymor canolig y Comisiwn o ran adnoddau ac er mwyn asesu opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hyn, gan gynnwys newid ffyrdd o weithio a blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau cyfredol. Un o'r ffyrdd allweddol rydym yn gwneud hyn yw drwy gynnal adolygiad cynllunio capasiti ddwywaith y flwyddyn, lle rydym yn ystyried newidiadau i gynlluniau gwasanaeth a blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau newydd, yn nodi risgiau a chyfleoedd ac yn asesu'r goblygiadau ar gyfer cyllideb ag anghenion y Comisiwn o ran adnoddau. Mae herio'n effeithiol yn rhan arwyddocaol o'r broses adolygu hon, sy'n cynnwys cyfoedion yn herio a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio ac yn darparu sicrwydd.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau hefyd yn herio ac yn adolygu pob penderfyniad o ran adnoddau. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob pythefnos ac yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Drwy gydol y flwyddyn ariannol, mae'r Bwrdd yn cydbwyso argaeledd cyllid ag anghenion prosiectau a gwasanaethau dros sawl blwyddyn er mwyn sicrhau bod ei fuddsoddiad yn y Cynulliad yn cael ei flaenoriaethu a'i reoli'n briodol ac y creffir arno'n gywir. Mae'n goruchwylio'r gwaith o gynllunio capasiti ac yn asesu achosion busnes ar gyfer pob achos o recriwtio staff, gan gynnwys llenwi swyddi gwag cyfredol, yn ogystal â swyddi newydd.

Caiff costau staffio cynyddol eu cydbwyso gan ostyngiadau mewn meysydd eraill. Er enghraifft, bydd y Comisiwn yn dal i elwa ar y trosglwyddiad i wasanaethau TGCh mewnol yn 2014; mae'r newid hwn wedi gostwng mwy na 15% ar ein costau TGCh, ac mae hefyd wedi rhoi rheolaeth lawn i'r Comisiwn dros amser, costau a chyflawni. Yn yr un modd, rydym yn parhau i elwa ar 20% o gynnydd yng nghynhyrchiant ein gwasanaethau cyfieithu ac chofnodi, gan adeiladu ar lansiad llwyddiannus Microsoft Translator. Llwyddwyd i sicrhau arbedion eraill drwy drafodion caffael a chontractio, gan sicrhau bod yr arbedion yn lleihau costau gweithredu sylfaenol y Comisiwn wrth iddo gychwyn ar flwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad.

## Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad

Darparwyd ar gyfer costau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn llawn.


Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau adolygiad trylwyr o Dâl a Lwfansau'r Aelodau yn ystod 2014-15 i dargedu adnoddau i helpu'r Aelodau gyflawni eu swyddogaethau craidd: craffu ar bolisi a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr. Mae Penderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnig cynyddu cyflog yr Aelodau i £64,000 y flwyddyn (o £54,391 yn 2015-16) o 2016-17 ymlaen i adlewyrchu'r cynnydd yn lefel y cyfrifoldebau. Cafodd cost y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan newidiadau i gynllun pensiwn yr Aelodau a'r gostyngiad yn lefel y cyflog ychwanegol sy'n daladwy i Weinidogion a deiliaid swyddi eraill. Mae cynnydd yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer cefnogi staff yr Aelodau hefyd yn cyfrannu at y cynnydd yn y gyllideb sydd ei hangen. Ceir **adroddiad llawn yma**[1] sy'n esbonio'r newidiadau a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2016. Rydym yn cynnig cyllideb o £15.5 miliwn i ariannu Penderfyniad cyntaf y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Yn gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ceir y gyllideb ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae'r addasiad yn deillio o'r driniaeth gyfrifyddu ragnodedig ac mae iddo gyllideb ar wahân wedi'i chlustnodi, sef Gwariant a Reolir yn Flynyddol, er mwyn darparu'r cyllid priodol. Ar gyfer 2016-17, rydym yn ceisio cyllideb gwerth £1.5 miliwn, sy'n cynnwys cronfa wrth gefn o £300,000 ar gyfer unrhyw addasiadau cyfrifyddu ychwanegol yn sgil y newidiadau i'r cynllun pensiwn.

## Costau sy'n ymwneud â'r etholiad

Yn olaf, rydym yn cynnig cyllideb o £2.5 miliwn i dalu costau'r etholiad. Costau untro yw'r rhain sy'n ymwneud yn benodol â'r etholiad. Mae'n cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â therfynu swyddi'r Aelodau hynny a fydd yn dod i ben, costau darparu offer a chymorth TGCh i Aelodau sy'n dechrau, unrhyw ofynion o ran adeiladau y mae angen talu amdanynt, a'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosesau hyn. Drwy gynnwys hwn fel cyllideb ar wahân, mae'r costau penodol sy'n gysylltiedig ag etholiad, a godwyd ar y gyllideb, yn dryloyw ac yn hawdd eu hadnabod. Bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael eu rhoi mewn cyllideb atodol i'w defnyddio mewn mannau eraill ym Mloc Cymru. Mae'r rheolaeth ariannol gadarn hon hefyd yn diogelu'r arian ar gyfer gwasanaethau'r Comisiwn i'r Aelodau, gan sicrhau bod y rhain yn parhau i gael eu darparu fel arfer.

**Ffigur 1: Costau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016-17**




[1] **http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9636**

# 03.Cefnogi'r rhaglen gynyddol o waith deddfwriaethol

Mae maint a chymhlethdod y gwaith o graffu ar y ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yn cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym. Disgwyliwn i'r lefel hon a chyflymder y gweithgaredd deddfwriaethol barhau hyd at ddiwedd y Cynulliad hwn a bod yn fater o drefn o ddechrau'r Cynulliad nesaf.

Nodweddion allweddol y cynnydd hwn yw:

– Bellach, mae Biliau'r Cynulliad yn debyg i rai Senedd y DU o ran maint a chymhlethdod. Mae mwy ohonynt ac maent yn cynnwys Biliau mwy o faint, ehangach eu cwmpas a / neu dechnegol gymhleth. Yn ogystal, caiff yr holl weithdrefn ddeddfwriaethol yn y Cynulliad – o'r cyflwyniad, i'r gwaith craffu a chyflwyno gwelliannau i'r gymeradwyaeth derfynol – ei gwneud yn ddwyieithog. Mae'r un statws cyfreithiol i'n Deddfau yn Gymraeg ac yn Saesneg;

– Mae cynnydd cyfatebol yn nifer y gwelliannau a gyflwynir gan Aelodau'r Cynulliad, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu drafftio gan gyfreithwyr y Comisiwn, neu'n cael cyngor y cyfreithwyr hynny;

– Mae cynnydd yn y galw am gyngor cyfreithiol manwl ar gymhwysedd deddfwriaethol. O ystyried nifer y Biliau'r Cynulliad a atgyfeiriwyd i'r Goruchaf Lys, mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf bosibl a'r sylw manylaf oll i'r gwaith hwn;

– Mae galw am ddrafftio deddfwriaethol Biliau unigol Aelodau. Mae’r Comisiwn wedi buddsoddi mewn gwasanaethau mentora allanol gan arbenigwr a gydnabyddir yn rhyngwladol er mwyn meithrin a gwella’r ddarpariaeth fewnol o’r sgil hwn;

– Mae galw cynyddol am wybodaeth hygyrch gan y Gwasanaeth Ymchwil, cefnogi gwaith craffu deddfwriaethol, a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn egluro sut mae Bil yn newid wrth iddo fynd yn ei flaen drwy'r Cynulliad. Mae papurau crynodeb Bil (sy'n nodi cyd-destun polisi, prif amcanion a darpariaethau pob Bil newydd) a geirfaoedd termau ac ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir mewn Biliau'r Cynulliad yn dod yn boblogaidd;

– Mwy o is-ddeddfwriaeth yn deillio o bwerau yn Neddfau'r Cynulliad, gan arwain at fwy o waith craffu deddfwriaethol ar gyfer yr Aelodau a chyfreithwyr y Comisiwn;

– Cynnydd yn nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, lle cyfyd goblygiadau polisi a chyfansoddiadol pellgyrhaeddol; a

– Deddfwriaeth i roi trefniadau cyllidol newydd ar waith ar gyfer gosod a chasglu trethi – maes newydd o gyfrifoldeb i'r Cynulliad.

Cyn yr etholiad yn 2016, mae'n amhosibl rhagweld yn hyderus pa ddeddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno yn ystod blynyddoedd cyntaf y Pumed Cynulliad. Fodd bynnag, mae'n argoeli y bydd nifer y ddeddfwriaeth yn debygol o aros yn uchel, felly rydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn barod ar gyfer hyn drwy gynllunio capasiti.

Mae’r Comisiwn yn ystyried ei bod yn hanfodol bod cymorth o ansawdd uchel ar gael ar gyfer gwaith diwygio a chraffu deddfwriaethol, yn yr un modd â’r gwaith o graffu ar benderfyniadau ariannol a pholisi Llywodraeth Cymru. Felly, mae hyn yn rhan hanfodol o’n gwaith o gynllunio capasiti er mwyn

cyfeirio adnoddau at feysydd â blaenoriaeth. Rydym hefyd yn parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi gwaith pwyllgor yr Aelodau drwy fframwaith y Comisiwn ar bwyllgorau o'r radd flaenaf. Mae'r adborth gan yr Aelodau a'u staff cymorth yn adlewyrchu lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau gwell y mae'r Comisiwn wedi'u darparu i gymunedau. Mae'r gwelliannau hyn hefyd wedi'u llywio gan ymarfer ffafriaeth yr Aelodau, sydd wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i staff y Comisiwn o sut y mae'r Aelodau'n ymdrin â gwaith pwyllgor, yn defnyddio'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt a beth arall y gall timau ei wneud i helpu'r Aelodau i ymgysylltu a chymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor. Bydd y dull hwn wrth wraidd y gefnogaeth a gynigir yn yr etholiad a'r gobaith yw y bydd y Comisiwn nesaf yn rhannu ein dyhead ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad:

> [g]wella yn amlwg ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru; [c]ael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth; dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.

## Deddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

1

**Cyfnod 1:** Ymchwiliad pwyllgor ac yna drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar egwyddori on cyffredinol.

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) I Bil yr Amgylchedd (Cymru)**
**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) I Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)**
**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) I Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

2

**Cyfnod 2:** Pwyllgor yn ystyried gwelliannau.

**Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) I Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
**Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)**

3

**Cyfnod 3:** trafod y gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn.

**Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

4

**Cyfnod 4:** Trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar a ddylid pasio'r Bil.

**Ar ôl Cyfnod 4:** Dyma'r cyfnod pan gaiff Bil ei baratoi ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, neu weithiau ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys.

**Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)**

**Cydsyniad Brenhinol:** Daw'r Bil yn gyfraith.

**Deddf Cymwysterau Cymru 2015 I Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**
**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 I Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**
**Deddf Tai (Cymru) 2014 I Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014**
**Deddf Addysg (Cymru) 2014 I Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
**Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 I Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014**
**Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014**
**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 I Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013**
**Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013**
**Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 I Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013**
**Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**
**Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 I Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012**
**Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012**

# 04.Gwasanaethau dwyieithog

Uchelgais y Comisiwn yw cael ei gydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, a'i fod yn gweithredu felly, gan alluogi i'r staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r Comisiwn i wneud hynny yn yr iaith o'u dewis hwy.

Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dogfennau dwyieithog a'r ddarpariaeth bwrpasol sydd eisoes wedi'i gwneud. Mae'r arolwg blynyddol o Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn dangos gwelliant amlwg yn y sgôr ar gyfer y cymorth a ddarperir er mwyn eu galluogi i weithio yn yr iaith o'u dewis hwy. Rydym yn gwella'r gefnogaeth hon drwy weithio gydag Aelodau'r Cynulliad i gyflawni'r canlynol:

- cynyddu'r gwasanaethau pwrpasol a ddarperir i Aelodau a'u Staff Cymorth a chymorth wedi'i deilwra i unigolion neu grwpiau i sicrhau bod gan bawb y gallu a'r cyfleuster i weithio yn yr iaith o'u dewis hwy;
- darparu dogfennau dwyieithog i gefnogi pwyllgorau, gan gynnwys dogfennau briffio ar gyfer Pwyllgorau;
- adolygu'r ddarpariaeth bresennol i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth i ddysgu Cymraeg gyda'r nod o gyflwyno dulliau creadigol ac arloesol o'u cefnogi; a
- gwella prosesau cynhyrchu hysbysiadau cymorthfeydd, cylchlythyrau a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig ag etholaethau yn ddwyieithog.

Bydd y contract cyfieithu allanol sy'n darparu gwasanaethau trawsgrifio uniaith, cyfieithu testun,cyfieithu ar y pryd a phrawfddarllen yn parhau i gael ei ddefnyddio i gynorthwyo ar adegau prysur. Bydd y contract yn cael ei ail-dendro erbyn y Pumed Cynulliad a chaiff ei addasu i gynnwys y canlynol:

- categorïau newydd o gyfieithu i gynnwys testun a gyfieithwyd yn beirianyddol a thestun a ôl-olygwyd (bydd hyn yn golygu cyfraddau gwahanol ac amseroedd cyflawni gwahanol);
- cyfleuster is-deitlo dwyieithog ar holl fideos y Comisiwn ac archwilio'r posibilrwydd o is-deitlo Senedd.tv;
- gwella contract etholaethol Aelodau'r Cynulliad trwy ymestyn y dewis o gontractwyr y gellir galw arnynt yn ôl y gofyn a'r mathau o waith a gynhwysir; a
- gwell contract cyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn.

Yn ogystal, byddwn yn anelu at roi mwy o ymwybyddiaeth i ddwyieithrwydd yn y Cynulliad drwy wahanol ddulliau ee cynnal "wythnos ieithoedd swyddogol" i gyd-fynd â'r diwrnod cenedlaethol Shwmae /Su'mae.

Mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau adborth annibynnol ac i werthuso ansawdd y gwasanaethau dwyieithog y mae'r Cynulliad yn eu cynnig i bobl Cymru.  Bydd yr adborth hwn yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod ein gwasanaethau yn darparu "gwerth am arian" ardderchog a'u bod o safon ragorol.

# 05.Datblygiad Proffesiynol i'r Aelodau

Roedd darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i’r Aelodau yn fenter newydd ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, ac yn un sydd wedi magu momentwm a gwerth sylweddol ers ei sefydlu. Rydym wedi bod ar flaen y gad yn y maes gweithgaredd hwn o'i gymharu â deddfwrfeydd eraill ac rydym nawr yn gweithio gyda hwy i'w helpu i ddatblygu eu hymyriadau ac i rannu'r arferion gorau.

Mae'r gwasanaeth bellach wedi datblygu i lefel sy'n golygu y gellir ei deilwra i anghenion unigol pob cyfranogwr, gan gwmpasu ystod amrywiol ac eang o bynciau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau ffurfiol, er enghraifft, craffu ar ddeddfwriaeth, craffu ariannol a holi'n effeithiol. Hefyd, rydym wedi cynnal rhaglen beilot DPP ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau a sesiwn DPP ar y cyd ar gyfer Cadeiryddion o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae'r staff cymorth, yn ogystal â'r Aelodau, yn cael budd o'r gwasanaeth ac maent wedi cael amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu i adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae'r Aelodau'n defnyddio eu hadnoddau staff. Mae enghreifftiau o'r mathau o sgiliau a ddarperir yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer y wasg a'r cyfryngau, darpariaeth dysgu iaith, gwaith achos, delio ag etholwyr, ysgrifennu areithiau, y broses ddeddfwriaethol a gwella deddfwriaeth, a chwrs datblygu rheolwyr achrededig.

Wrth i ni symud tuag at y Pumed Cynulliad a'r newid i'r garfan o Aelodau'r Cynulliad, bydd y ffocws cychwynnol ar ddarparu rhaglen groeso a chynefino ar gyfer Aelodau newydd a fydd yn eu galluogi i fynd ymlaen â'r gwaith cyn gynted ag y bo modd. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys cymorth gan amryw swyddogion, gyda sesiynau briffio, canllawiau, system 'cyfaill' a sesiynau cynefino penodol.

Yn dilyn y cyfnod cynefino, bydd rhaglen DPP barhaus ar gael i bob Aelod. Bydd y DPP a fydd ar gael yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, a bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd yn seiliedig ar adborth gan yr Aelodau presennol a barn yr Aelodau a etholwyd i'r Cynulliad nesaf o ran pa gymorth ychwanegol a fyddai'n fuddiol. Fel rhan o hyn, rhagwelwn y bydd galw cynyddol am ddysgu'r Gymraeg o blith yr Aelodau newydd a'u staff cymorth.

Cyn belled ag y bo modd, bydd y rhaglen ar gyfer yr Aelodau yn parhau i gael ei theilwra i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn a bydd y staff cymorth yn dal i allu cael mynediad at raglen hyblyg ac amrywiol i ddiwallu eu hanghenion. Bydd y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys sesiynau hyfforddi, deunyddiau ysgrifenedig ac ar-lein, sesiynau briffio a hyfforddi sy'n adlewyrchu'r ystod o gyfrifoldebau sydd gan yr Aelodau a'u staff cymorth. Bydd aelodau unigol yn cael cymorth i fynd i'r afael â'u cyfrifoldebau mewn rhedeg swyddfeydd a rheoli staff ochr yn ochr â busnes mwy ffurfiol y Cynulliad. Yna byddant yn cael eu cefnogi'n unigol i adnabod meysydd o ddiddordeb arbennig. Bydd Pwyllgorau'n cael mynediad at raglen hyblyg barhaus o gefnogaeth i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau craffu, a fydd yn cynnwys hyfforddiant i Gadeiryddion, casglu tystiolaeth a sgiliau holi, a chraffu ar ddeddfwriaeth. Bydd y rhaglen DPP bresennol ar gyfer staff cymorth yn parhau, a bydd ffocws ychwanegol ar gefnogi gweithwyr achos a staff mewn swyddfeydd etholaeth sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Bydd cryn ffocws ar sicrhau bod yr Aelodau'n barod i weithredu o dan y trefniadau a fydd yn codi o bwerau ariannol newydd y Cynulliad a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Bydd y gefnogaeth sydd ar gael yn adeiladu ar y rhaglen craffu ariannol a gyflwynir yn y Pedwerydd Cynulliad a bydd yn cynnwys hyfforddiant a sesiynau briffio arbenigol sydd wedi'u targedu

Ym mlwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, buddsoddwyd £73,000 mewn darparu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer yr Aelodau.  Wrth i'r Cynulliad symud ymlaen, mae mwy o waith yn cael ei wneud i sefydlu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr. Mae’r gost bellach wedi cynyddu i oddeutu £149,000 ar gyfer 2015-16.  Er mwyn cynnal y lefel hon o ddarpariaeth a darparu cyfnod cynefino i Aelodau newydd, mae'r gyllideb ar gyfer 2016-17 wedi'i phennu ar £165,000.

# 06.Cefnogi Newid Cyfansoddiadol

Bydd datblygiadau cyfansoddiadol ledled y DU yn ffactor arwyddocaol yng ngwaith y Cynulliad nesaf. Gofynnir cwestiynau sylfaenol ynghylch natur yr Undeb, pwerau'r seneddau a maint a phwerau llywodraethu cenedlaethol a lleol.

Mae'r Llywydd wedi hyrwyddo ei thri blaenoriaeth ar gyfer newid cyfansoddiadol yn rheolaidd: gwella capasiti'r Cynulliad drwy gynyddu ei faint; ymgorffori sofraniaeth a sefydlogrwydd y Cynulliad; a symud tuag at setliad datganoli cliriach.

Mae'r Comisiwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y gefnogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau'n hollol barod ar gyfer goblygiadau newid cyfansoddiadol.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan y Cynulliad lais cryf yn y newidiadau cyfansoddiadol yn y DU ac Ewrop, a'i fod wedi paratoi ar gyfer y newidiadau hynny.  Bydd graddfa'r newid yn sylweddol yn dilyn Deddf Cymru 2014 a Chyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ym mis Chwefror 2015. Byddwn yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar unrhyw Fil Cymru yn y dyfodol, sicrhau arwyddocâd a safbwynt cyfansoddiadol y Cynulliad, a sicrhau y caiff blaenoriaethau'r Llywydd eu cyflawni.

Mae paratoi ar gyfer y datganoli ariannol a geir yn Neddf Cymru 2014 yn faes blaenoriaeth o ran gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar arferion gorau o ran gweithdrefnau'r gyllideb mewn ymateb i argymhellion Comisiwn Silk. Roedd yr ail adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn cynnig model o broses gyllidebol ac yn argymell bod y Cynulliad a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i roi trefn gyllidebol newydd ar waith sy'n diwallu anghenion a gofynion y naill sefydliad a'r llall.

Rydym yn buddsoddi adnoddau i ddarparu'r arbenigedd a'r capasiti ychwanegol sydd eu hangen i gynorthwyo'r Aelodau i arfer y pwerau newydd ac i graffu ar waith y Llywodraeth. Bydd y Bil cyntaf sy'n ymwneud â'r pwerau trethu newydd yn cael ei gyflwyno yn 2015, a disgwylir y caiff Biliau eraill sy'n ymwneud â threthu eu cyflwyno ar ddechrau'r Pumed Cynulliad. Wrth i ragor o bwerau gael eu datganoli i'r Cynulliad, byddwn yn sicrhau bod yr Aelodau yn dal i gael cefnogaeth briodol i gyflawni eu dyletswyddau yn y dyfodol ac i ddatblygu deddfwriaeth dan arweiniad y Cynulliad a fydd yn deillio o bwerau deddfwriaethol newydd ar gyfer trefniadau mewnol y Cynulliad a materion etholiadol.

# 07.Parhau â'r gwaith ymgysylltu, a'i gynyddu

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud o ran:

- Sefydlu brand cyson a phroffesiynol ar gyfer y Cynulliad;
- Ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd drwy gynlluniau megis y rhaglen Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a ffocws newydd ar ymgysylltu â phobl ifanc;
- Datblygu gwell presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithgarwch y Cynulliad;
- Cyflwyno rhaglen uchelgeisiol sy'n gwneud y Senedd yn llwyfan ar gyfer digwyddiadau o bwys cenedlaethol;
- Hyrwyddo menter Diffyg Democrataidd y Llywydd sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth;
- Cynyddu a gwella'r ffordd yr ydym yn cefnogi ymgysylltiad y cyhoedd â phwyllgorau'r Cynulliad; a
- Cyflwyno strategaeth newydd i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar waith y Cynulliad.

Y flaenoriaeth ar gyfer hanner cyntaf 2016-17 fydd:

- Codi ymwybyddiaeth am ddegfed pen-blwydd y Senedd, yr etholiad a'r canlyniad;
- Sicrhau diwrnod llwyddiannus i Agoriad Brenhinol y Cynulliad; a
- Cyflwyno rhaglen o waith ymgysylltu ar gyfer y Cynulliad newydd a'r Comisiwn.

Bydd ail hanner 2016-17 yn gyfle i fyfyrio ar effaith newid cyfansoddiadol ac ymateb iddo. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith benodol ar waith y Pwyllgorau ac y bydd rhaid i ni fod yn barod i ymateb i'r heriau o gyfleu gwybodaeth newydd a gwahanol mewn ffordd sy'n effeithiol ac yn hygyrch.

Yn ogystal, bydd y gweithgaredd canlynol yn ein galluogi i atgyfnerthu ac adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma:

- Cyflwyno'r prosiectau 'Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?' a 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ar gyfer pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i helpu i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i berthnasedd i bobl ifanc;
- Archwilio'r potensial ar gyfer rhaglenni Erasmus+ i ariannu gweithgareddau ieuenctid yn y dyfodol a datblygu cynnwys;
- Cynhyrchu mwy o adnoddau rhyngweithiol ar-lein at ddefnydd y cyhoedd;
- Parhau i sicrhau bod pwyllgorau'r Cynulliad yn gallu cael gwasanaethau o'r radd flaenaf sy'n cefnogi eu hymholiadau;
- Gwella ein proffil ar-lein ymhellach; a
- Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau cymunedol a chenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Cynulliad newydd a'i bwerau.

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

MAE EIN DILYNWYR AR TWITTER WEDI CYNYDDU I

**13,555**

SEF **600** O DDILYNWYR Y MIS AR GYFARTALEDD

**36** FFRWD TWITTER YN CYRRAEDD DROS **30,000** PROFFIL

BELLACH MAE GENNYM DROS **50** SIANEL AR DRAWS SAWL PLATFFORM O RAN Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

BELLACH MAE GENNYM **3000** YN HOFFI DROS 5 TUDALEN FACEBOOK

Y NIFER SYDD WEDI GWYLIO AR YOUTUBE **75,000**

SY'N CYFATEB I DROS **70** DIWRNOD O WYLIO FIDEOS

## Ewrop

O safbwynt ehangach, a chan ganolbwyntio'n benodol ar ddylanwad Ewrop yng Nghymru, rydym yn awgrymu cynnal cynhadledd flynyddol yn ystod y Pumed Cynulliad.  Bydd y gynhadledd yn fforwm i drafod materion yr UE sydd o bwys i Gymru a gwaith y Cynulliad.

Dyma rai syniadau eraill a fydd yn helpu i ddatblygu cysylltiadau ag Ewrop ac â'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn â gwaith y Cynulliad a'i berthynas ag Ewrop:

- Derbyniad 'Diwrnod Blynyddol Ewrop' gan gynnwys dadl neu drafodaeth gydag ASE o Gymru yn ogystal â phwysigion eraill ar thema o ddiddordeb ac mewn cydweithrediad gydag EC-Cymru a Swyddfa'r DU yn Senedd Ewrop (EP-UK);
- Dadleuon ar thema ynghylch refferendwm yr UE, diwygio'r UE, a rôl Cymru yn yr UE. Byddai'r rhain ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol i dynnu eu sylw at faterion sy'n berthnasol i Gymru ar agenda'r UE.

# 08.Datblygu gwasanaethau technolegol – datblygu ein gwaith fel senedd ddigidol, agored a hygyrch

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg i ddod yn senedd wirioneddol ddigidol, gan weddnewid ein cefnogaeth i'r Aelodau. Gyda'r llwyth gwaith heriol sydd gan yr Aelodau, un o'r manteision allweddol fydd gweddnewid mynediad digidol yr Aelodau at ein gwasanaethau ac at y wybodaeth am fusnes y Cynulliad.

Mae'r Adolygiad o'r Cofnod yn mynd i'r afael â'r ffordd rydyn ni'n cynhyrchu ac yn defnyddio'r wybodaeth yng Nghofnod y Trafodion a'r modd yr ydym yn cyflwyno gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd yn y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn. Bydd yr argymhellion yn mynd i'r afael â sut y gallwn ddefnyddio technoleg gwybodaeth i wneud yr hyn yr ydym yn ei gyhoeddi yn fwy hygyrch a defnyddiol a sut y gallwn wella ein dull o gyfieithu Cofnod y Trafodion.

Mae'r Adolygiad wedi ein harwain i edrych yn fanylach ar y ffordd y mae allbynnau allweddol y Cynulliad yn cwrdd ag anghenion y rhai sy'n defnyddio'r hyn a gyhoeddir gennym, mewn byd digidol. Byddwn yn dechrau ar raglen i weddnewid y ffordd yr ydym yn creu, defnyddio a rheoli ein gwybodaeth i sicrhau bod y Cynulliad yn dod yn senedd sy'n agored, yn hygyrch ac yn hawdd i ymgysylltu â hi. Bydd system rheoli gwybodaeth ddigidol yn ein galluogi i strwythuro ein data fel gwybodaeth a'u gwneud yn asedau gwerthfawr i'w defnyddio gan yr Aelodau, y staff a'r cyhoedd.

Mae hefyd yn gam tuag at gyhoeddi data yn fwy agored. Byddai galluogi trydydd partïon i gymryd ein data a'u defnyddio mewn ffyrdd gwahanol i greu negeseuon ar gyfer cynulleidfaoedd yn golygu y gellir ymgysylltu'n ehangach. Bydd yn golygu hefyd bod mwy o sefydliadau a dinasyddion yn gallu cael mynediad i'r Cynulliad ar eu telerau hwy, ac ymgysylltu â ni ar faterion penodol. Pe gellid sicrhau bod data ar gael yn y ffordd dryloyw hon gallai gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn gyffredinol tuag at wleidyddion a'r sefydliadau y maent yn gweithio ynddynt. Mae hefyd yn debygol y bydd gwybodaeth am waith y Cynulliad yn teithio ymhellach ac yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd nad ydynt yn hysbys i ni ar hyn o bryd.

## Adnewyddu'r Siambr

Mae'r cyfleusterau yn y Siambr i gefnogi'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod Llawn wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers i'r Senedd gael ei hagor yn 2006. Fodd bynnag, mae anghenion yr Aelodau wedi newid o ran mynediad at wybodaeth a'r lle gweithio corfforol yn y Siambr, ac mae llawer o'r systemau TGCh ategol wedi cyrraedd diwedd eu hoes gweithredol a chefnogol. Felly, rydym wedi achub ar y cyfle i ymgynghori â'r Aelodau am eu barn ynghylch gwneud y Siambr yn lle gwell i gynnal busnes y Cyfarfod Llawn ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i nodi a dewis atebion i sicrhau gwelliannau costeffeithiol. Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu yn 2016-17 yn dilyn y treialon a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Bydd yr union gostau yn dibynnu ar yr opsiynau terfynol ac rydym wedi nodi amcangyfrif cychwynnol o £0.65 miliwn yn y gyllideb. Bydd y gwaith yn cynnwys ailosod y system gynadledda a chyfieithu ar y pryd a'r caledwedd clyweledol yn y Siambr. Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn disodli'r systemau meddalwedd yn y Siambr, sy'n galluogi trefniadau pleidleisio a thrafodion y Cyfarfod Llawn i redeg yn hwylus. Bydd y system yn integreiddio gyda'n darn ehangach o waith ar weddnewid y dull o reoli gwybodaeth Busnes y Cynulliad. Yn olaf, bydd cynllun ergonomig desgiau'r Aelodau yn y Siambr yn cael ei wella i roi sylw i hygyrchedd a'r cyfyngiadau ymarferol ar leoedd gwaith.

## Creu cyfleoedd ac effeithlonrwydd mewn gwasanaethau TGCh.

Cafoodd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau TGCh ar gyfer y Dyfodol ei chwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb ym mis Gorffennaf 2014. Y weledigaeth oedd:

– rhoi i'r Cynulliad a'r Comisiwn wasanaeth TGCh a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer eu hanghenion;

– rhoi rheolaeth dros fuddsoddi a datblygu yn ôl i'r Comisiwn;

– cyflwyno hyblygrwydd ac arloesedd i'r atebion TGCh i gefnogi busnes; a

– gwneud hyn i gyd o fewn y gyllideb TGCh bresennol a hefyd rhyddhau arian i ddarparu'r Strategaeth TGCh.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i gyflawni pob rhan o'r weledigaeth hon ac yn falch bod y ffordd y cafodd y trawsnewid ei gynllunio, ei reoli, ei lywodraethu a'i gyflawni wedi'i gydnabod yn esiampl da gan archwilwyr allanol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Dysgwyd llawer iawn ar y daith 18 mis hon, ac erbyn hyn gofynnir yn rheolaidd inni rannu'r gwersi hyn gyda sefydliadau eraill sy'n ystyried dewis rhwng contract allanol neu gontract mewnol ar gyfer eu gwasanaethau TGCh.

Mae cael rheolaeth lawn dros amser a chost y gwasanaethau TGCh, a darparu'r gwasanaethau hynny, wedi rhoi'r gallu a'r modd i'r Cynulliad i fynd i'r afael â ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn cydnabod nad yw gweithio mewn swyddfa bob amser yn ddelfrydol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a llawer o'u staff. Yn yr un modd, mae gan swyddfeydd etholaethol anghenion penodol na fydd un ateb penodol yn eu bodloni. Felly, rydym yn mynd ati i ddarparu cymwysiadau a gwybodaeth ar wasanaethau cwmwl diogel, dros rwydwaith data gwell, gan fod hyn yn gwella hygyrchedd a gwytnwch. Gydag amser bydd yn lleihau'r costau i'r Comisiwn.

Wrth ddod â'r gwasanaeth TGCh yn fewnol, cydnabuwyd bod angen dull gwahanol o ddarparu cymwysiadau TGCh ar y Cynulliad i gefnogi ei fusnes. Sefydlwyd swyddogaeth fewnol ar gyfer rheoli a datblygu cymwysiadau. Os bydd angen arbenigedd ychwanegol arnom, byddwn yn cysylltu'n bennaf ag arbenigwyr meddalwedd mewn busnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, lle bynnag y bo modd, nad ydym bellach yn prynu cynnyrch oddi ar y silff. Roedd angen i'r cyflenwyr deilwra'r rheini'n sylweddol a oedd yn gostus o ran amser ac arian ond nad oedd byth braidd yn diwallu ein holl anghenion.

Mae bod yn hyblyg wrth ddatblygu systemau eisoes yn talu am ei le yn y broses o greu System Busnes y Cyfarfod Llawn, a fydd ar gael i'w ddefnyddio yn 2016. Mae'r dull hwn wedi hwyluso cyfranogiad gan Aelodau, staff y Comisiwn, ein dadansoddwyr busnes ac arbenigwyr cymwysiadau i adeiladu a chytuno ar y rhaglen fesul cam, gan sicrhau ein bod yn cael yr hyn sydd ei angen am lai na'r gost ar y farchnad agored. Byddwn yn parhau â'r dull hwn wrth ddatblygu'r fethodoleg graidd ar gyfer datblygu cymwysiadau yn y dyfodol.


Yn 2016-17 rhagwelir y bydd gwasanaeth TGCh 'craidd' y Comisiwn yn costio £3.7 miliwn. Mae'r costau gweithredu wedi gostwng i £2.0 miliwn ac, fel y nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol, mae'r gweddill o £0.7 miliwn yn y gyllideb TGCh yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau TGCh ymhellach. Rydym wedi datblygu cynllun buddsoddi TGCh dros dair blynedd dreigl sydd wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r diffygion a etifeddwyd gan y trefniadau allanol blaenorol. Rydym hefyd yn rhag-gynllunio i wneud seilwaith TGCh y Cynulliad yn fwy costeffeithiol. Mae'r holl waith a'r gwariant arfaethedig yn amodol ar fod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn cymeradwyo achos busnes, ac mae hyn yn sicrhau bod y gronfa yn cael ei gwario'n ddoeth ar flaenoriaethau corfforaethol.

O ran y Pumed Cynulliad, hyblygrwydd fydd conglfaen y Strategaeth TGCh wrth i ni ganolbwyntio ein hadnoddau, ein gwasanaethau a'n systemau ar atebion sy'n gweithio i bob defnyddiwr. Mae cyfleoedd sylweddol i adeiladu ar ddatblygiad presennol y gwasanaethau yn y cwmwl, ac mae gan y system gyfathrebu newydd a gyflwynwyd yn 2015 y potensial i chwyldroi cydweithio ac ymgysylltu. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i wella'r systemau cefn swyddfa a etifeddwyd a lleihau costau. Bydd yr holl waith hwn yn paratoi'r Cynulliad i wynebu'r her y gallai maint y Cynulliad ehangu yn y dyfodol.

Nodau strategol y gwasanaeth yn y dyfodol yw sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas ac yn parhau i ddarparu'r safon uchaf i'w gwsmeriaid drwy:

- Fod yn arloesol, yn ymatebol, yn ddibynadwy, yn hyblyg ac yn cynnig gwerth am arian.
- Sicrhau bod gwasanaethau a gwybodaeth TGCh ar gael i ddefnyddwyr, ni waeth ymhle y maent, yn y fformat cywir ar gyfer eu hanghenion;
- Rhoi dewis o ddyfeisiau i ddefnyddwyr;
- Darparu cefnogaeth effeithiol i ddefnyddwyr;
- Cefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth, a hynny mewn modd diogel;
- Rheoli asedau gwybodaeth yn effeithiol; a
- Strwythuro'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion busnes ac ar yr un pryd, gwella effeithlonrwydd, sicrhau gwerth a gwella'r ymgysylltiad â phobl Cymru.

**Ffigur 2: Costau TGCh 2013-2017**



# 09.Pobl a Lleoedd - Ystadau a Buddsoddi yn ein staff

## Gwella'r ystâd

Mae ein gwaith o reoli ystâd y Cynulliad yn seiliedig ar y flaenoriaeth strategol 'i wneud y gorau o'n hystâd,' yn un o'r pum blaenoriaeth y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn ym mis Mai 2014.

Mae'r ystâd wedi elwa'n fawr o'r buddsoddiad dros y 4 blynedd diwethaf a arweiniodd at adnewyddu cyfleusterau a ddaeth i ddiwedd eu hoes ac a oedd â'r flaenoriaeth uchaf i helpu i gynnal a chadw ystad sy'n adlewyrchu statws y Cynulliad, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod ein hystâd, a'i hadeiladau eiconig, yn chwarae rhan allweddol yn strategaeth ymgysylltu ehangach y Cynulliad, gan ymdrechu i sicrhau bod yr ystâd yn agored, yn groesawgar a diogel.

Er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei dargedu ac yn dangos gwerth am arian, rydym wedi llunio cynllun buddsoddi tymor hir ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Datblygwyd y cynllun ar ein cyfer gan arbenigwyr a adolygodd gyflwr ein holl adeiladau, ein hoffer a'n peiriannau, gan ystyried eu hoes bosibl a'r amserlenni ar gyfer adnewyddu ac ailwampio. O ganlyniad, mae gennym restr o'r gwaith sydd ei angen dros gyfnod o ddeng mlynedd, a defnyddiwn y rhestr honno i lywio ein penderfyniadau buddsoddi.

Mae'r ystâd yn cael ei hadolygu'n gyson er mwyn nodi gwelliannau diogelwch posibl ac yn y blynyddoedd diwethaf, mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd gwleidyddol rhyngwladol, atgyfnerthwyd ei pherimedr drwy roi mesurau diogelwch cadarnach ar waith. Yn fwy diweddar cyflwynwyd swyddogion arfog er mwyn darparu lefel uwch o ddiogelwch a'r gallu i ymateb pe bai angen.

Mae diogelwch ein hystâd, a phawb sy'n ei defnyddio, yn parhau i fod o'r pwys mwyaf a bydd, fel rhan o raglen dreigl ehangach o waith, yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi (lle mae angen buddsoddiad) hyd y gellir rhagweld.

Sail ein dull o reoli'r ystâd yw ein hymrwymiad i weithio'n gynaliadwy a'n buddsoddiad parhaus yng ngwneuthuriad yr adeilad er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n effeithiol ac y defnyddir cyn lleied o ynni â phosibl. Y nod ar gyfer y Pumed Cynulliad yw peidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi a pharhau i wneud arbedion o ran yr ynni a ddefnyddir.

## Pobl yn dod i'n gweld: 2014-15

RHODDODD **88%** SGÔR GADARNHAOL I'R SENEDD AR ÔL EU HYMWELIAD

TYSTYSGRIF RHAGORIAETH
TRIP ADVISOR

THERE WERE **17,168** VISITORS ON TOURS OF THE ASSEMBLY

DROS **87,000** O YMWELWYR I'R PIERHEAD

DROS **80,000** O YMWELWYR I'R SENEDD

CYNHALIWYD **296** O DDIGWYDDIADAU AR YR YSTÂD

## Ein llwyddiannau cynaliadwyedd

GOSTYNGIAD O **35%** AR YR ALLYRIADAU YNNI YN 2014-15 O GYMHARU Â 2008-09

RYDYM BELLACH YN AILGYLCHU **95%** O'N GWASTRAFF

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD • GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

CYRHAEDDWYD
LEFEL 5
SAFON RHEOLI AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD AM Y SEITHFED FLWYDDYN YN OLYNOL

# Rheoli Ystadau a Chyfleusterau

Mae'r Comisiwn yn rheoli ei adnoddau'n rhagweithiol drwy ddeall ei ymrwymiadau gwariant ar gyfer y blynyddoedd ariannol presennol a'r dyfodol.

Un o'r gwasanaethau allweddol yn asesu ymrwymiadau'r dyfodol yw'r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau.

Mae gan Rheoli Ystadau a Chyfleusterau raglen gynhwysfawr o waith ar gyfer y degawd nesaf sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus.  Y costau dangosol ar gyfer y gwaith sydd ei angen i gynnal yr Ystâd er mwyn sicrhau ein blaenoriaethau a chyflawni ein rhwymedigaethau yw £4.15 miliwn wrth i ni ddynesu at y Pumed Cynulliad.



## Adnoddau Dynol

Wrth wraidd yr agenda adnoddau dynol mae ymrwymiad i adeiladu gallu sefydliadol, er mwyn sicrhau bod gan y Cynulliad y bobl iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn gyda'r sgiliau iawn i ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf yn erbyn cefndir o anghenion sefydliadol sy'n newid.

Yn sgil gwaith diweddar ar gynllunio capasiti nodwyd meysydd ar gyfer buddsoddi i sicrhau bod ein hadnoddau o ran pobl yn cyfateb i'n hanghenion busnes, yn enwedig y rhaglen o ddeddfwriaeth sy'n ehangu. Yn y dyfodol, byddwn yn parhau â'r gwaith hwn i lywio penderfyniadau buddsoddi ac i sicrhau bod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn gweithio'n strategol.

Mae'r arolygon staff yn dangos bod gan ein pobl lefelau uchel o ymgysylltu, sy'n allweddol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ac mae’r nifer fawr o wobrau ac anrhydeddau allanol a gafodd y Cynulliad yn dyst i hyn. Byddwn yn gweithio i gynnal a chynyddu'r lefelau ymgysylltu, gan ddefnyddio canlyniadau arolwg staff 2015 a strategaethau ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol eraill, megis y cyfarfodydd brecwast gyda'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â'n trefniadau partneriaeth gyda'r Undebau Llafur, er mwyn cynnal a gwella ymgysylltiad staff ymhellach ac adolygu a diweddaru ein polisïau a'n harferion o ran pobl yn ôl y gofyn.

Rydym wedi gwneud llawer i gryfhau ein trefniadau Rheoli Perfformiad, ac yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn rhoi mwy fyth o bwyslais ar ein gwerthoedd a'r ymddygiadau a'r cymwyseddau sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant. Wrth wneud hynny, byddwn yn gwella perfformiad ymhellach, yn mynd i'r afael â thangyflawni ac yn cyfrannu at ein hagenda dysgu a datblygu.

Nid yw gweithlu ar ei phen ei hun yn ddigon i sicrhau rhagoriaeth, a'r flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yw datblygu talent a photensial ein pobl. Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys mireinio ein rhaglen datblygu rheolwyr er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n arwain ac yn rheoli ein pobl yn effeithiol yn eu rôl. I fynd i'r afael â'r newidiadau sydd ar ddod byddwn yn canolbwyntio ar wella ein gallu i reoli newid, gan gynnwys ein gallu i reoli prosiectau, ochr yn ochr â'r sgiliau meddalach sydd eu hangen i lwyddo i newid yn effeithiol.

Rydym wedi cynnal dau gynllun prentisiaeth yn llwyddiannus ac rydym yn bwriadu cynnal cynllun prentisiaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Oherwydd y lefel o sgiliau arbenigol sydd eu hangen o fewn y Comisiwn, mae rhai gwasanaethau yn awr hefyd yn ystyried meithrin eu staff mewnol eu hunain er mwyn cynllunio ar gyfer olyniaeth. Am y tro cyntaf, bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyflogi hyfforddeion yn 2016-17 a fydd yn cael hyfforddiant penodol ar gyfer gwaith cyfreithiol y Comisiwn. Bydd hyn yn help i gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil eisoes wedi defnyddio'r dull hwn yn y gorffennol yn llwyddiannus a byddwn yn cynnal cynllun hyfforddi eto yn 2016-17.

Wrth ddatblygu'r agenda Adnoddau Dynol, byddwn yn ceisio bod yn batrwm i gyflogwr eraill ac ennill cydnabyddiaeth briodol am yr arfer gorau yr ydym yn anelu ato, gan adlewyrchu ein dyhead i fod yn gyflogwr a fydd yn ddewis cyntaf pob rhan o'n cymuned.

# 10.Gwerth am arian

Cred y Comisiwn ei bod yn hanfodol sicrhau gwerth am arian a bod targedau sy'n ymwneud â gwerth am arian wedi bod yn rhan o'r gwaith o reoli'r gyllideb bob blwyddyn. Ym mis Mawrth 2015, daeth adroddiad archwilio mewnol i'r casgliad:

> "fod gan Gomisiwn y Cynulliad ddiwylliant Gwerth am Arian wedi'i ddatblygu'n dda, sydd wedi'i sefydlu drwy'r sefydliad."

Ein nod yw sicrhau bod pob punt a gaiff ei gwario yn cefnogi'r Cynulliad yn cynrychioli gwerth am arian ac y caiff adnoddau eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i'r Cynulliad a phobl Cymru. Mae gennym dair blaenoriaeth:

- gwella rheoli gwybodaeth er mwyn deall yn well y gweithgareddau a'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r Cynulliad a'r hyn sy'n llywio'r costau hynny;
- symleiddio prosesau a'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn manteisio'n llawn ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cynulliad a gwneud gwell defnydd o adnoddau; a
- gwneud defnydd llawn o'r manteision a'r arbedion costau drwy gaffael a rheoli contractau'n gadarn.


Bydd yr adolygiad effeithlonrwydd busnes a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16 yn rhoi sicrwydd bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn addas at y diben ac yn gosteffeithiol. Y cam cyntaf yn dilyn yr adolygiad hwn fydd gosod targed arbedion yn benodol ar gyfer gwasanaethau a chontractau. Bydd yr adolygiad o effeithlonrwydd busnes yn cyfrannu at ddull mwy cynhwysfawr o weithredu a fydd yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i effeithlonrwydd a rhagoriaeth ym mhob agwedd ar waith y Comisiwn, yn ogystal â darparu ystod ehangach o dystiolaeth o gyflawniadau mewn prosiectau a rhaglenni, newid busnes, darparu gwasanaeth ac o ran caffael a rheoli contractau. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy flaenoriaethu buddsoddiadau a thrwy reoli costau'n gadarn yn ogystal â gwaith dilysu a meincnodi annibynnol neu allanol ychwanegol.

Er yr anogir effeithlonrwydd, mae'n bwysig nodi nad yw'r ymgyrch i welliant parhaus, o reidrwydd, yn arwain at arbedion arian parod bob amser. Rydym hefyd wedi gweld, a byddwn yn parhau i weld, arbedion drwy ryddhau adnoddau. Er enghraifft, yn 2014, dechreuwyd adolygiad o'r modd y mae Cofnod y Trafodion yn cael ei gynhyrchu. Canfuwyd bod rhannau o'r broses yn hir-sefydledig, ond o bosibl nad oeddynt yn ofynnol mwyach. Mae hyn wedi darparu opsiynau ar gyfer symleiddio sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud a fydd yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Yn ogystal, byddwn yn ceisio symleiddio'r prosesau ar gyfer yr Aelodau cyn belled ag y bo modd. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys awtomeiddio hawliadau'r Aelodau am dreuliau a darparu dashfwrdd chwarterol i ddangos gwariant o gymharu â lwfansau.

Mae ffigur 3 isod yn dangos y mathau o arbedion sydd wedi'u gwneud, sydd wedi'u rhannu rhwng arbedion sydd â budd untro a'r rhai a fydd yn lleihau'r costau gweithredu sylfaenol yn y dyfodol. Caiff yr olaf ei wireddu trwy gaffael, ac wrth i ni symud ymlaen mae disgwyl iddynt barhau i gynhyrchu'r rhan fwyaf o'r arbedion.

**Ffigur 3: Arbedion yn ôl blwyddyn ariannol**




Mae cefnu ar gontract gwasanaethau TGCh mawr a oedd yn cefnogi miloedd o ddefnyddwyr ag anghenion gwahanol wedi ein galluogi i fod yn llawer mwy hyblyg yn ein dewis o gynnyrch a chytundebau cynnal a chadw. Drwy wneud hyn rydym eisoes wedi sicrhau arbedion sylweddol, gan gynnwys dros £50,000 y flwyddyn ar system wrth gefn newydd a £30,000 ar weinyddion dirprwyol newydd. Mae defnyddio ein staff ein hunain hefyd wedi ein galluogi i gyflwyno newid dan reolaeth, ar gyflymder sy'n briodol ar gyfer y sefydliad. Mae hyn hefyd wedi golygu ein bod wedi uwchraddio cymwysiadau Microsoft Office heb gost ychwanegol i'r sefydliad. Byddai hynny wedi costio miloedd o dan y trefniant blaenorol.

Mae'r prosiect mawr cyntaf a gyflwynwyd o dan ein Strategaeth Cymwysiadau – gwefan y Cynulliad – wedi arwain at arbedion sylweddol o ran lletya a thrwyddedu, sef bron i £50,000 y flwyddyn.

Wrth i ni ddynesu at y Pumed Cynulliad, y gwerthoedd a'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i brosesau caffael a gwerth am arian cryf yw:

- Bod gyda'r gorau ac i ddarparu gwasanaeth sydd yn fodern, yn effeithlon ac yn gyfrifol yn gymdeithasol;
- Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn;
- Cyflwyno gwasanaethau o'r safon a ddisgwylir gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd;
- Rhoi cyfle i gyflenwyr bychain gystadlu ar gyfer ein busnes;
- Darparu gwerth am arian, ond nid dim ond trwy brynu'r opsiwn rhataf;
- Bod yn dryloyw ac yn mabwysiadu'r safonau proffesiynol uchaf wrth ddelio â chyflenwyr; a
- Sicrhau bod ein prosesau yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb.

# 11.Cyllideb i ariannu Penderfyniad annibynnol y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael mynediad at arian i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â'u rôl fel Aelodau a / neu Ddeiliaid Swyddi, gan gynnwys:

– Rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;

– Cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;

– Llety preswyl yng Nghaerdydd (os yw'r Aelod yn gymwys);

– Costau teithio yr eir iddynt o reidrwydd wrth gyflawni eu dyletswyddau; a

– Cymorth i'r Grwpiau Plaid ac ymchwil polisi.

Yn ystod 2014-15 cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r system cyflogau a lwfansau. Bu hyn yn destun ymgynghoriad a her helaeth gan yr Aelodau a'r cyhoedd fel ei gilydd. Cyhoeddwyd y Penderfyniad terfynol ym mis Mai 2015. Mae'n gwneud rhai newidiadau sylfaenol i'r cyflog a'r lwfansau presennol ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd yn y cyfrifoldebau yn dilyn newidiadau i'r setliad datganoli. Y prif newidiadau yw:

– Cynyddu cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad o £54,391 y flwyddyn i £64,000 y flwyddyn a'i addasu ym mhob blwyddyn ddilynol i adlewyrchu'r newid yn Enillion Canolrifol ASHE yng Nghymru rhwng mis Mawrth a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.

– Lleihau’r cyflog ychwanegol sy’n daladwy i Weinidogion a rhai deiliaid swyddi eraill.

– Cynyddu cyfanswm y swm blynyddol fesul Aelod at y diben o gyflogi staff cymorth o £91,879 i £94,000.

– Lleihau costau'r cynllun Pensiwn Aelodau drwy leihau'r cyfraniad a wneir gan y Comisiwn a thrwy symud at Enillion wedi'u Hailbrisio yn ôl Cyfartaledd Gyrfa yn hytrach na chynllun Cyflog Terfynol.

Mae Tabl 2 yn dangos y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016-17.

| Tabl 2 | 2016-17 £000 |
|---|---|
| **Aelodau'r Cynulliad - Costau Cyflogau a Swyddfeydd** | £7,508 |
| **Staff Cymorth** | £7,960 |
| **Cyfanswm** | **£15,468** |

# 12.Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hefyd yn cynnwys yr arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2016-17, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 3.

| Tabl 3 | £000 |
|---|---|
| **Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Comisiwn i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** | £36,470 |
| **Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.** | £15,468 |
| ***Cyfanswm yr adnoddau, ar wahân i adnoddau cronnus*** | **£51,938** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.** | £1,500 |
| **Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;**<br>**– O'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog**<br>**– Incwm rhent; anrhegion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad.** | £400 |
| **Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill** | £49,538 |

Mae tabl 4 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 4: Gofyniad arian parod net** | **2016-17 £000** |
|---|---|
| **Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau** | £15,468 |
| **Gofyniad Refeniw Net Gwasanaethau'r Comisiwn** | £36,220 |
| **Gofyniad cyfalaf net** | £250 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | £1,500 |
| ***Addasiadau*** | |
| **Dibrisiant** | (£3,000) |
| **Newidiadau yn y ddarpariaeth** | (£1,500) |
| **Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr** | £600 |
| **Defnydd o ddarpariaethau** | |
| **Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£49,538** |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

Mae Tabl 5 yn cymharu cyllideb 2015-16 ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer dechrau'r Pumed Cynulliad.

| Tabl 5<br>Pennawd y Gyllideb | 2015-16<br>Cyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cyllideb<br>£000 |
|---|---|---|
| **Cyflogau staff a chostau cysylltiedig** | £18,750 | £20,391 |
| **Costau adeiladau a chyfleusterau** | £7,509 | £7,514 |
| **Costau TGCh** | £2,758 | £2,614 |
| **Costau eraill** | £1,266 | £2,133 |
| **Costau hyfforddi a datblygu** | £380 | £385 |
| **Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth** | £368 | £324 |
| **Costau teithio a chynhaliaeth staff** | £134 | £156 |
| **Costau eraill Adnoddau Dynol** | £103 | £103 |
| **Costau dibrisiant ac amorteiddiad** | £4,700 | £3,000 |
| **Gwariant Refeniw** | £35,968 | £36,620 |
| | | |
| **Incwm refeniw** | | |
| **Gwerthiant – Siop y Cynulliad** | (£15) | (£15) |
| **Incwm rhentu adeiladau** | (£90) | (£50) |
| **Incwm amrywiol** | (£195) | (£335) |
| **Cyfanswm Incwm** | (£300) | (£400) |
| | | |
| **Gwariant Cyfalaf - creu asedau sefydlog** | £732 | £250 |
| | | |
| **Cyfanswm Adnoddau** | £36,400 | £36,470 |
| | | |
| **Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig** | £14,500 | £15,468 |
| | | |
| **Adnoddau Net** | **£50,900** | **£51,938** |
| | | |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad** | £500 | £2,500 |
| | | |
| **Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau** | £1,200 | £1,500 |

# Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol

Meysydd gwariant yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Gwirioneddol | Gwirioneddol | Gwirioneddol | Cyllideb |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| *Costau adeiladau a chyfleusterau* | | | | | |
| **Lesau - adeiladau** | 2,204 | 2,812 | 2,837 | 2,830 | 2,835 |
| **Cynnal a chadw** | 1,357 | 1,163 | 1,299 | 1,243 | 1,625 |
| **Gwaith a Phrosiectau Rheoli Ystadau a Chyfleusterau** | 359 | 808 | 635 | 2,293 | - |
| **Ardrethi** | 1,285 | 1,356 | 716 | 1,236 | 1,272 |
| **Diogelwch** | 581 | 603 | 573 | 574 | 600 |
| **Cyfleustodau** | 506 | 518 | 507 | 569 | 537 |
| **Arlwyo** | 323 | 305 | 306 | 328 | 320 |
| **Lesau – llungopiwyr** | 127 | 161 | 134 | 132 | 150 |
| **Parcio** | 99 | 115 | 105 | 102 | 120 |
| **Dodrefn a gosodiadau** | 68 | 79 | 268 | 51 | 50 |
| | | | | | |
| *Costau TGCh* | | | | | |
| **Gwasanaethau TGCh ar Gontract Allanol, gan gynnwys Ffôn** | 2,856 | 2,558 | 2,669 | 1,085 | 498 |
| **Darlledu** | 433 | 475 | 578 | 637 | 490 |
| **Costau trwyddedu a chynnal a chadw** | 289 | 385 | 520 | 730 | 740 |
| **Prosiectau TG** | 147 | 215 | 795 | 549 | 770 |
| **Gwefan** | 176 | 121 | 117 | 86 | 130 |
| **Prynu defnyddiau traul TGCh** | 63 | 90 | 292 | 255 | 130 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Costau eraill* | | | | | |
| **Treuliau gweinyddol eraill** | 61 | 343 | 202 | 551 | 214 |
| **Gwasanaethau Iaith ar gontract allanol** | 116 | 204 | 276 | 241 | 263 |
| **Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio** | 181 | 203 | 242 | 216 | 277 |
| **Cyngor Arbenigol ac Yswiriant** | 109 | 195 | 130 | 120 | 131 |
| **Cyhoeddiadau** | 174 | 110 | 102 | 104 | 110 |
| **Cyfrifyddu a Gwasanaeth Ariannol** | 126 | 92 | 77 | 108 | 25 |
| **Archwilio** | 82 | 87 | 128 | 89 | 93 |
| **Cynghorwyr Pwyllgorau** | 71 | 57 | 117 | 80 | 50 |
| **Lletygarwch** | 31 | 37 | 45 | 57 | 35 |
| | | | | | |
| *Costau hyfforddi a datblygu* | 194 | 250 | 384 | 370 | 380 |
| *Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth* | 170 | 178 | 217 | 286 | 368 |
| *Costau teithio a chynhaliaeth staff* | 92 | 136 | 128 | 159 | 134 |
| *Costau eraill Adnoddau Dynol* | 1,035 | 211 | 113 | 119 | 103 |
| *Costau etholiad* | 442 | - | - | - | 500 |
| *Costau dibrisiant ac amorteiddiad* | 3,781 | 3,942 | 3,734 | 4,008 | 4,700 |
| | | | | | |
| **Incwm** | 190 | 165 | 281 | 223 | 300 |

# Atodiad 3: Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol – Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Trosolwg cryno o'r wybodaeth fanylach am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a geir yn Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer Ebrill 2014 – Mawrth 2015

| Rhif Grŵp KPI | Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Boddhad Aelodau | oren | gwyrdd | Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014. Cynhelir arolwg boddhad nesaf yr Aelodau ym mis Mehefin/Gorffennaf 2015. |
| 2 | Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau | gwyrdd | gwyrdd | Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb. Mae targedau mwy heriol wedi'u pennu yn ddiweddar ar gyfer cyhoeddi papurau pwyllgor a thrafodion pwyllgor. |
| 3 | Datblygiad Proffesiynol | gwyrdd | oren | Mae'r un nifer o Aelodau Cynulliad newydd a staff cymorth newydd yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus ac mae nifer y dysgwyr Cymraeg wedi cynyddu. |
| 4 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | gwyrdd | gwyrdd | Ymgorffori ymhellach y cynnydd tuag at "bwyllgorau o'r radd flaenaf". Technoleg wedi'i huwchraddio yn gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion. Arbedion a sicrhawyd drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu gwell. |
| **Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru** | | | | |
| 5 | Boddhad Aelodau | - | oren | Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol. |
| 6 | Ymgysylltu â'r Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Mae niferoedd ymwelwyr yr un fath ac mae lefelau boddhad ymwelwyr wedi gwella (sgorau da/boddhaol – 90%). |
| 7 | Proffil Allanol y Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Cafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv. |
| 8 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu) | gwyrdd | gwyrdd | Lefel dda o ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad, yn enwedig o ran pobl ifanc a gwaith y pwyllgorau. Cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol. |

| Rhif Grŵp KPI | Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Boddhad Aelodau | gwyrdd | gwyrdd | Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh. |
| 10 | Perfformiad Cyllidebol | gwyrdd | gwyrdd | Sefyllfa gref o ran % y tanwariant a ragwelwyd a gwariant yn erbyn proffil. Cyrhaeddwyd y targed Gwerth am Arian blynyddol yn ystod mis Rhagfyr. Rydym yn newid ffocws i ganolbwyntio ar arbedion ar gontractau a gwasanaethau. |
| 11 | Staff | oren | oren | Mae'r gyfradd absenoldeb salwch yn parhau'n is na chyfartaledd y sector. Mae dulliau adrodd mwy cywir yn caniatáu gwell ddealltwriaeth o resymau absenoldeb. |
| 12 | Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh | oren | oren | Roedd gostyngiad yn ein perfformiad cyffredinol ar dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ymdrin ag achosion ac aed i'r afael â phroblemau er mwyn datrys hyn. Mae'r sgôr boddhad cwsmeriaid yn uchel o hyd. |
| 13 | Llywodraethu | gwyrdd | gwyrdd | Mae taliadau'n parhau o fewn yr amser targed. Gwelliant o ran % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu hateb ar amser (94% yn erbyn targed o 100%). |
| 14 | Cynaliadwyedd | oren | gwyrdd | Cyflwynwyd targed newydd ar gyfer lleihau allyriadau ynni 30% arall erbyn 2021. |
| 15 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad) | gwyrdd | gwyrdd | Blaenoriaethau'r flaenraglen fuddsoddi a'r cynllun cynnal a chadw wedi'u cwblhau. |

## Allwedd:

**COCH:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**OREN:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio'n sylweddol ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**GWYRDD:** Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

# Atodiad 4: Geirfa

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Dull o gategoreiddio gwariant a gedwir ar gyfer eitemau llai disgwyliadwy ac sy'n anos eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei neilltuo y gellir ei ddyrannu.

### Fformiwla Barnett

Fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cyfran yn seiliedig ar y boblogaeth o'r newid mewn gwariant wedi'i gynllunio ar wasanaethau tebyg gan adrannau Llywodraeth y DU i'r deddfwrfeydd datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

### Cyllideb

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

### Gwariant Cyfalaf

Gwariant sydd fel arfer yn arwain at asedau sefydlog (ee adeilad, cyfarpar neu dir) y bwriedir iddynt fod o fudd i gyfnodau cyfrifo yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased sefydlog sy'n bodoli eisoes."

### Credydwr

Sefydliad neu unigolyn yr ydych wedi ymrwymo i'w dalu am gynnyrch neu wasanaethau a gafwyd.

### Dyledwr

Sefydliad neu unigolyn sydd wedi'i ymrwymo i'ch talu am gynnyrch neu wasanaethau yr ydych wedi eu darparu iddo.

### Dibrisiant

Mesur o'r defnydd neu'r gorddefnydd o ased sefydlog, neu leihad yn ei oes ddefnyddiol.

### Asedau sefydlog

Eitemau a brynir sydd ag oes ddisgwyliedig sy'n hwy na blwyddyn at fudd busnes, fel tir, adeiladau a chyfarpar.

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf Senedd y DU sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn haws i bwerau pellach gael eu trosglwyddo iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu sydd â gweithrediaeth ar wahân a ddaw o'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

### Darpariaethau

Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth nad oes amserlen na swm penodol iddi. Caiff cost ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion

economaidd i setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan ellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### Termau real

Gwerth y gwariant sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n galluogi cymariaethau o'r gwariant ar draws blynyddoedd i gael eu gwneud heb yr ystumiad a berir gan newidiadau mewn prisiau.

### Costau Refeniw/Rhedeg

Y gwariant presennol ar gostau rhedeg dyddiol, fel cyflogau staff a phrynu cynnyrch treuliadwy a gwasanaethau.

### Gwerth am Arian

Y broses a ddefnyddir gan sefydliad ar gyfer gwerthuso ac asesu prosesau caffael, prosiectau a phrosesau mewn modd systematig i ennyn hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gochelgarwch, safon a gwerth, ac os llwyddwyd i osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

### Costau Amrywiol

Treuliau sy'n newid ar sail gweithgareddau'r sefydliad.

### Bloc Cymru

Arian bloc grant a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y mae'r Senedd yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer yr arian a ddaw i Gymru.

### Cronfa Gyfunol Cymru

Crëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Dyma'r cyfrif y mae'r arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno yn cael ei dalu i mewn iddo i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.